Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 25-40

ADNOD ALLWEDDOL
Eseia 7:14

Astudiaeth 4 Rhyfeddod y Nadolig – Iachawdwriaeth!

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 40: 1-5 Hebreaid 2: 1-4 1 Pedr 1: 10-12

Mae digwyddiadau arbennig, fel gwyliau, y Nadolig a phenblwyddi, bob tro'n ymddangos yn bell, bell i ffwrdd wrth i ni feddwl amdanynt. "A ddaw'r adeg fyth?" gofynnwn. Wedi hir ddisgwyl, fe ddaw'r diwrnod mawr. Dyna gyffrous yw'r cyfan!
Roedd Simeon ac Anna wedi aros oes gyfan bron am achlysur arbennig roedden nhw'n gwybod fyddai'n digwydd, oherwydd roedden nhw wedi darllen amdano yn eu Hysgrythurau, yr Hen Destament. Gwyddent y byddai Duw yn cadw El addewid. Roedd yr Ysbryd Glân wedi dweud wrth Simeon na fyddai'n marw hyd nes y byddai wedi gweld y Crist.
(Enw arall am 'y Crist' yw'r 'Meseia').

C **Chwiliwch am un o addewidion yr Hen Destament y gwyddai Simeon amdano'n dda, mae'n siŵr. (Eseia 9:6) Yn y blychau, ysgrifennwch yr enwau, neu'r teitlau, oedd yn mynd i gael eu rhoi i'r Plentyn.**

5

Roedd yr Un y bu Simeon yn aros amdano wedi dod, y Meseia hir-ddisgwyliedig! Roedd Simeon wedi Ei weld â'i lygaid ei hun! Does dim rhyfedd iddo foli Duw.

C **Llanwch y manylion er mwyn llunio 'PROFFIL O SIMEON'**

PROFFIL O SIMEON

Ble'r oedd e'n byw?

Pa eiriau sy'n disgrifio ei gymeriad?

Beth barodd iddo fynd i Lys y Deml?

Pwy fuodd e'n dal yn ei freichiau?

Beth wnaeth e wedyn?

5

DRYSFA EIRIAU

Llanwch y geiriau sydd ar goll o weddi Simeon, yna rhowch gylch o gwmpas y geiriau hynny yn y DDRYSFA EIRIAU.

"Mae fy llygaid wedi gweld dy _____."

" _____ i fod yn _____ i'r Cenhedloedd."

"Yn _____i'th bobl Israel."

I	A	CH	A	W	D	W	R	I	A	E	TH
L	M	O	R	Y	E	R	T	N	E	T	A
S	LL	G	O	B	G	E	N	U	G	N	RH
O	E	O	F	E	N	G	B	E	N	B	L
T	H	N	O	S	LL	N	E	L	M	E	I
T	O	I	E	N	R	M	T	O	A	T	E
I	S	A	D	A	I	DD	U	G	T	A	DD
S	D	N	E	P	P	A	H	CH	W	H	G
FF	S	T	Y	CH	LL	W	N	L	S	L	U
G	W	PH	N	FF	D	S	E	T	LL	E	B

4

Nid Simeon oedd yr unig un oedd yn disgwyl yn eiddgar am y Meseia. Roedd Anna, y broffwydes, wedi bod yn gwasanaethu Duw am flynyddoedd lawer, ac roedd hithau hefyd yn llawen iawn pan welodd hi'r Arglwydd Iesu.

C **O ba lwyth roedd hi'n dod?**

C **Beth fyddai hi'n treulio'i hamser yn gwneud?**

C **Beth wnaeth hi pan welodd hi'r Plentyn?**

3

Gannoedd o flynyddoedd cyn geni'r Arglwydd Iesu, roedd Duw wedi addo y byddai'n anfon Gwaredwr. Bellach, roedd y Gwaredwr hwnnw wedi dod! Mae Duw bob tro'n cadw Ei addewidion.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a darllenwch Mathew 1: 22-23.**

3

Yn yr astudiaethau hyn, gwelsom nad oedd rhai pobl, fel y Brenin Herod, yn croesawu'r newyddion am eni'r Arglwydd Iesu. Ond, roedd y bugeiliaid, y doethion, Simeon ac Anna, heb sôn am Mair a Joseff yn gorfoleddu! Ydych chi'n llawenhau am Iddo gael Ei eni? Ydych chi wedi diolch Iddo am ddod i'r byd hwn ac wedi gofyn Iddo fod yn Waredwr i chi? Beth am wneud hynny y Nadolig hwn?

Nadolig Llawen iawn i Chi!

"Anfonodd y Tad Ei Fab yn Waredwr y byd."

1 Ioan 4: 14.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120